

POLICE AND CRIME PANEL
PANEL HEDDLU A THROSEDD



PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

GWRANDAWIAD CADARNHAU - 19 IONAWR 2015

Cefndir

Llunnir yr adroddiad hwn yn unol â Pharagraff 10, Atodlen 1 (yr Atodlen) Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 (y Ddeddf).

Penodiad arfaethedig y Prif Weithredwr (am gyfnod dros dro) gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru

Cynhaliodd y Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (PHT) wrandawriad cadarnhau yn unol â Pharagraffau 10 ac 11 yr Atodlen, fel rhan o raglen cyfarfod Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a gynhaliwyd ym Modlondeb, Conwy ddydd Llun, 19 Ionawr 2015.

Ystyriodd y Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru lythyr oddi wrth Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (CHT) yn enwebu Mr. Stephen Hughes i swydd statudol Prif Weithredwr am gyfnod dros dro yn ystod cyfnod mamolaeth.

Yn unol â Pharagraff 11(2) yr Atodlen, roedd yr ymgeisydd bwriedig yn bresennol yn y cyfarfod, er mwyn ateb cwestiynau yn ymwneud â'r penodiad.

Adolygodd y PHT y penodiad bwriedig a'r meini prawf a ddefnyddiwyd gan y CHT i bennu ei enwebiad ar gyfer y swydd statudol hon.

Cydnabu'r Aelodau fod gan Mr. Hughes brofiad o weithio i Heddlu Gogledd Cymru am 11 mlynedd ac roedd ganddo gyfrifoldeb rheoli ar gyllideb fawr a chefnogodd yr Heddlu wrth gyflawni eu hamcanion strategol.

Yn ogystal, roedd Mr Hughes wedi gweithio gydag awdurdodau lleol a phartneriaid statudol eraill o fewn y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol am 6 mlynedd, a derbyniodd ganmoliaeth gan Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Sir Ddinbych.

Roedd Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn fodlon fod Mr Hughes yn diwallu'r meini prawf canlynol:

- Profiad o gynorthwyo'r CHT wrth gyflawni ei ddyletswyddau statudol profedig.
- Profiad o roi cyngor proffesiynol i'r CHT i'w alluogi i gyflawni ei rôl.
- Unigolyn a allai arwain Swyddfa'r Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (OPCC).
- Unigolyn sy'n parchu ac yn deall barn y CHT fel Comisiynydd.

Argymhellion:

Penodi Mr. Stephen Hughes yn Brif Weithredwr Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru am gyfnod dros dro yn ystod cyfnod mamolaeth.

Ionawr 2015